# ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **Teitl y cynnig:** | **Rheoliadau Datganiadau Blynyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026 a Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) (Diwygio) 2026 - elfennau sy'n ymwneud â gweithredu dileu elw o ofal plant** |
| **Swyddog(ion) sy'n llenwi'r Asesiad Effaith Integredig (enw(au) ac enw'r tîm):** | **Tom Cleaver, Neil Jones**<br><br>**Yr Is-adran Galluogi Pobl** |
| **Adran:** | **Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** |
| **Pennaeth yr Is-adran/Uwch-Swyddog Cyfrifol (enw):** | **Alistair Davey** |
| **Yr Ysgrifennydd Cabinet/y Gweinidog Cyfrifol:** | **Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol** |
| **Dyddiad Dechrau:** | **1 Ebrill 2025** |

## CYNNWYS

Adran 1. Pa gamau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham? ...................................................... 3

Adran 8. Casgliad ................................................................................................................................................ 6

## ADRAN 1. PA GAMAU GWEITHREDU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

**Ar ffurf naratif, disgrifiwch y mater a'r camau gweithredu a gynigir gan Lywodraeth Cymru. Sut rydych wedi cymhwyso / sut y byddwch yn cymhwyso'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i'r camau arfaethedig, drwy gydol y polisi a'r cylch cyflawni?**

Y mater

Mae Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ('Deddf 2016') yn darparu'r fframwaith statudol ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau gofal cymdeithasol a'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru. Er mwyn helpu i gyflawni hyn, mae Deddf 2016 yn rhoi ystod o bwerau gwneud rheoliadau a mathau eraill o is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru.

Cafodd Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025 ('Deddf 2025') y Cydsyniad Brenhinol ar 24 Mawrth 2025. Mae'n cynnwys darpariaethau y bwriedir iddynt gyfyngu ar dynnu elw gan darparwyr gwasanaethau cartrefi plant, gwasanaethau llety diogel a gwasanaethau maethu (y mae Deddf 2025 yn eu diffinio ac yn cyfeirio atynt gyda'i gilydd fel "gwasanaethau plant o dan gyfyngiad"). Mae hefyd yn mewnosod adran 6A newydd yn Neddf 2016. Mae adran 6A(1) yn datgan: "Er mwyn cael ei gofrestru mewn cysylltiad â gwasanaeth plant o dan gyfyngiad, rhaid i berson nad yw'n awdurdod lleol fod yn endid nid-er-elw". I fod yn endid 'nid-er-elw' cydnabyddedig, rhaid i ddarparwr:

- fod ag amcanion neu ddibenion sy'n ymwneud yn bennaf â lles plant (neu unrhyw fudd cyhoeddus arall a ragnodir gan Weinidogion Cymru)
- gweithredu o dan un o bedwar math o ymgymeriad:

- cwmni elusennol cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannau
- sefydliad elusennol corfforedig
- cymdeithas gofrestredig elusennol
- cwmni buddiant cymunedol cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannau

Camau gweithredu a gynigir

Yn dilyn y Cydsyniad Brenhinol, nodwyd bod angen gwneud newidiadau i is-ddeddfwriaeth i alluogi'r polisi dileu elw i gael ei weithredu. Yn benodol, i alluogi'r gofynion nid-er-elw yn adran 6A i gael eu gweithredu, bydd angen gwneud newidiadau i Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017 ("y rheoliadau cofrestru"). Y rheswm am hyn yw y bydd angen i'r broses gofrestru newid fel bod AGC yn derbyn yr wybodaeth angenrheidiol er mwyn penderfynu a yw darparwyr newydd sy'n gwneud cais i gofrestru o 1 Ebrill 2026 ymlaen yn bodloni'r diffiniad o endid nid-er-elw. Yn ogystal, bydd angen gwneud newidiadau i Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) 2017 ("y rheoliadau datganiadau blynyddol") i'w gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau plant o dan gyfyngiad gadarnhau bod eu sefydliad yn parhau i

fodloni'r diffiniad o endid nid-er-elw.  Mae'r newidiadau hyn yn cael eu  gweithredu drwy Reoliadau Datganiadau Blynyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026 a Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) (Diwygio) ("Rheoliadau 2026").

Sut y mae'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi'u cymhwyso i'r camau gweithredu arfaethedig, drwy gydol y cylch polisi a chyflawni

## 1. Hirdymor

Mae dull Llywodraeth Cymru o gael gwared ar elw o ofal plant yn adlewyrchu gweledigaeth hirdymor ar gyfer gofal cynaliadwy a theg. Drwy ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr weithredu ar sail nid-er-elw, nod y polisi yw sicrhau bod adnoddau yn cael eu hailfuddsoddi i wella canlyniadau i blant yn hytrach na chael eu dosbarthu fel elw. Mae hyn yn cyd-fynd â'r nod hirdymor o greu system gofal sefydlog sy'n blaenoriaethu llesiant yn hytrach nag elw ariannol. Mae'r newidiadau deddfwriaethol penodol a gynigir yn rheoliadau 2026 wedi'u cynllunio i ymgorffori'r egwyddorion hyn yn y fframwaith rheoleiddio dros y tymor hir.  Bydd y newidiadau arfaethedig i brosesau cofrestru yn cryfhau'r fframwaith rheoleiddio, gan roi'r offer sydd eu hangen ar Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i fonitro cydymffurfiaeth yn effeithiol dros y tymor hwy.  Bydd y newidiadau i'r rheoliadau datganiadau blynyddol sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau plant o dan gyfyngiad gadarnhau eu statws nid-er-elw drwy eu datganiad blynyddol yn gwella tryloywder ac atebolrwydd, gan adeiladu hyder y cyhoedd yn ogystal â darparu mecanwaith ffurfiol i AGC wirio cydymffurfiaeth barhaus ag adran 6A, a bydd hynny o fudd i oruchwyliaeth reoleiddiol.

## 2. Atal

Nod y polisi dileu elw ehangach yw ceisio atal risgiau sy'n gysylltiedig â gofal sy'n cael ei ysgogi gan elw, megis ansefydlogrwydd posibl mewn lleoliadau oherwydd penderfyniadau sy'n cael eu llywio gan y farchnad a chostau cynyddol. Drwy ei gwneud yn orfodol i ddarparwyr gwasanaethau plant o dan gyfyngiad fod yn endidau nid-er-elw, mae Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael yn rhagweithiol ag effeithiau negyddol posibl ar blant sy'n agored i niwed.  O ran y newidiadau deddfwriaethol penodol a gynigir yn rheoliadau 2026, mae'r gofyniad i ddarparwyr gadarnhau eu statws nid-er-elw bob blwyddyn yn gweithredu fel mesur diogelu ataliol parhaus, gan sicrhau bod cydymffurfiaeth yn cael ei chynnal dros amser. Gyda'i gilydd mae'r newidiadau yn diogelu uniondeb y bwriad polisi, gan sicrhau tryloywder ac atebolrwydd.

## 3. Integreiddio

Fel y cyfeirir yn yr Asesiad Effaith Integredig a gwblhawyd ar gyfer dileu'r elfennau elw m Mil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) fel yr oedd ar y pryd, mae'r diwygiadau hyn yn rhan o'r gwaith ehangach ar ddileu elw a'r Rhaglen Drawsnewid sy'n cysylltu ac yn cyfrannu at nifer o ymrwymiadau ehangach y Rhaglen Lywodraethu a Datganiad Llesiant y Rhaglen Lywodraethu. Er mwyn cyflawni'r rhaglen drawsnewid ehangach hon, mae trefniadau llywodraethiant wedi'u rhoi ar waith. Rydym wedi defnyddio dull tair haen i ddarparu'r cyfeiriad a'r craffu cywir i gyflawni ein nodau ac i sicrhau cysylltiadau ag agendâu polisi perthnasol eraill. Mae gan y strwythur dri grŵp allweddol:

i. Bwrdd Goruchwylio Gweinidogol i oruchwylio’r Rhaglen Drawsnewid, gan ddarparu arweinyddiaeth a chyfarwyddyd gwleidyddol o dan gadeiryddiaeth y Prif Weinidog a’r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol
ii. Grŵp Cyflawni Trawsnewid i arwain y gwaith o fwrw ymlaen â’r Rhaglen Drawsnewid erbyn 2026
iii. Bwrdd y Rhaglen Dileu Elw o Ofal Plant sy’n Derbyn Gofal i ddarparu arbenigedd ychwanegol wrth inni ystyried tystiolaeth, deddfu a datblygu rhaglenni ymarferol ar gyfer gweithredu’r ymrwymiad hwn.

## 4. Cydweithredu

Cynhaliwyd ymgynghoriad rhwng 16 Gorffennaf ac 8 Hydref 2025 a oedd yn cwmpasu’r newidiadau arfaethedig i gofrestru a datganiadau blynyddol yn ogystal â’r dull arfaethedig o fonitro a gorfodi darpariaethau Deddf 2025 ynghylch gwahardd trefniadau ariannol afresymol neu anghymesur yr eir iddynt gan ddarparwyr gwasanaethau plant o dan gyfyngiad. Cafwyd 27 o ymatebion i’r ymgynghoriad gan gymysgedd o ddarparwyr er elw a nid-er-elw unigol, awdurdodau lleol unigol a sefydliadau ymbarél sy’n cynrychioli buddiannau llywodraeth leol, darparwyr gwasanaethau a phlant a phobl ifanc.

Yn fwy eang, mae’r gwaith o ddatblygu’r diwygiadau wedi cynnwys cydweithredu agos ag AGC, a rhoddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf i randdeiliaid allweddol eraill drwy Fwrdd y Rhaglen Dileu Elw a’i ffrydiau gwaith ategol. Bwriedir parhau i gydweithredu drwy gydol y broses weithredu, enwedig wrth gyfathrebu’r newidiadau allweddol i ddarparwyr a sicrhau y gall AGC eu cynorthwyo i fodloni’r gofynion newydd.

## 5. Cyfranogiad

Fel uchod, cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynigion rhwng 16 Gorffennaf a 8 Hydref 2025, a oedd yn gofyn am farn ar y newidiadau arfaethedig. Mae crynodeb o’r ymgynghoriad gan gynnwys ymatebion Llywodraeth Cymru ar gael yma.

## ADRAN 8. CASGLIAD

### 8.1 Sut y mae pobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?

Wrth ddatblygu'r diwygiadau arfaethedig i'r rheoliadau, ymgysylltwyd yn helaeth â'r rhai sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Cydraddoldeb 2010. Cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol a daeth ymatebion i law oddi wrth drawstoriad o'r rhai sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio, gan gynnwys darparwyr unigol er elw ac nid-er-elw, awdurdodau lleol unigol a sefydliadau ymbarél sy'n cynrychioli buddiannau llywodraeth leol, darparwyr gwasanaethau a phlant a phobl ifanc. Cynhaliwyd ymgysylltu wedi'i dargedu hefyd yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad gan gynnwys digwyddiad a gynhaliwyd ar gyfer darparwyr gofal lle cyflwynodd swyddogion Llywodraeth Cymru fanylion yr ymgynghoriad a rhoi cyfle i'r rhai a oedd yn bresennol ofyn cwestiynau.

Mae Bwrdd y Rhaglen Dileu Elw a'i ffrydiau gwaith cysylltiedig yn cynnwys cynrychiolaeth eang o bob rhan o'r sectorau perthnasol. Mae'r rhain yn cynnwys y sector cyhoeddus a'r sector gofal nid-er-elw a darparwyr cartrefi gofal plant a gwasanaethau maethu yn y sector er elw. Mae Bwrdd y Rhaglen a'i ffrydiau gwaith wedi cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith hwn ar adegau allweddol ac mae'r aelodau wedi cael cyfle i gyfrannu'n ffurfiol drwy'r broses ymgynghori. Bydd Bwrdd y Rhaglen a'i ffrydiau gwaith cysylltiedig yn parhau i gael eu cynnwys drwy gydol y gwaith hwn, gyda chyfleoedd i roi adborth i swyddogion.

### 8.2 Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

O ystyried eu natur dechnegol, disgwylir mai cyfyngedig fydd effaith rheoliadau arfaethedig 2026 ar bobl, diwylliant a'r iaith Gymraeg, yr economi a'r amgylchedd yng Nghymru.

O ran datganiadau blynyddol, bydd y newidiadau i'w gwneud yn ofynnol cyflwyno datganiad blynyddol o statws nid-er-elw yn rhoi ffordd syml i ddarparwyr ddangos cydymffurfiaeth, gan leihau ansicrwydd ac osgoi ymholiadau ychwanegol posibl gan AGC. I AGC, mae'n creu mecanwaith ffurfiol i wirio cydymffurfiaeth ac yn ei gwneud yn bosibl gweithredu'n orfodadwy ar ddatganiadau ffug, gan ganiatáu gweithredu cyflym yn erbyn achosion o dorri'r rheolau. Mae Llywodraeth Cymru yn elwa drwy wneud y gwiriadau hyn yn rhan o brosesau arferol, gan gefnogi'r amcan polisi o gael gwared ar elw o ofal plant.

Mae cyflwyno gofynion cofrestru clir i ddangos statws nid-er-elw yn rhoi ffordd syml i ddarparwyr ddangos cydymffurfiaeth o'r cychwyn cyntaf, gan leihau amwysedd ac osgoi ymholiadau adweithiol. I AGC, mae'r gofynion hyn yn sicrhau bod darparwyr yn bodloni'r diffiniad nid-er-elw ymlaen llaw ac yn darparu gwybodaeth werthfawr ar gyfer monitro parhaus a chynllunio strategol. Mae Llywodraeth Cymru yn elwa drwy ymgorffori'r gofyniad yn y gyfraith ar adeg cofrestru, gan gefnogi'r amcan polisi o gael gwared ar elw o ofal plant a lleihau'r risg o fethiant y polisi drwy ofyn am dystiolaeth glir yn gynnar.

Mae'n bosibl y bydd darparwyr yn wynebu rhywfaint o waith ychwanegol cyfyngedig o ganlyniad i'r newidiadau mewn perthynas â choladu gwybodaeth ychwanegol a hyfforddi staff, ond disgwylir mai bychan fydd hyn.

I grynhoi, disgwylir i'r newidiadau arfaethedig gael effeithiau cyfyngedig ar bobl, diwylliant, y Gymraeg, yr economi a'r amgylchedd. Rhagwelir y bydd unrhyw effeithiau negyddol posibl yn fychan ac y gellir eu rheoli drwy'r cymorth a'r canllawiau sydd ar gael ar hyn o bryd a'r rhai sy'n cael eu cynllunio.

**8.3 Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:**

- **yn cyfrannu cymaint â phosibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu,**
- **yn osgoi, yn lleihau, neu'n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

O ystyried bod y newidiadau yn rheoliadau arfaethedig 2026 yn dechnegol eu natur ac yn ymwneud â phrosesau presennol, ni ragwelir y byddant yn cael effaith sylweddol o ran y saith nod llesiant.  Fodd bynnag, nodir effeithiau posibl isod, a hynny mewn rhai achosion sy'n gysylltiedig â'r polisi dileu elw ehangach:

- **Cymru Ffyniannus –** Mae defnyddio datganiadau blynyddol i roi tystiolaeth fod y statws nid-er-elw yn parhau yn fuddiol i waith monitro a gorfodi AGC, gan helpu i sicrhau mai dim ond darparwyr nid-er-elw  a fydd yn gweithredu yn y dyfodol yn maes gwasanaethau plant o dan gyfyngiad.  Mae hyn yn cysylltu ag un o nodau ehangach y polisi dileu elw - sef bod cyllid ar gyfer gofal cymdeithasol plant yn cael ei gyfeirio at wella gwasanaethau a datblygiad y gweithlu, gan gryfhau'r economi gofal cymdeithasol yn hytrach na chael ei dynnu fel elw.

- **Cymru Gydnerth** – Bydd y newidiadau arfaethedig i gofrestru a datganiadau blynyddol o fudd i gydnerthedd drwy gefnogi proses fonitro a gorfodi gadarn a thryloyw ar gyfer y polisi dileu elw.

- **Cymru iachach** – Drwy alluogi proses fonitro a gorfodi gadarn a thryloyw ar gyfer y polisi dileu elw, bydd y newidiadau arfaethedig i gofrestru a datganiadau blynyddol yn helpu i weithredu nodau'r polisi dileu elw ehangach yn effeithiol.  Mae'r rhain yn cynnwys system lle mae cyllid ar gyfer gofal cymdeithasol plant yn cael ei gyfeirio at wella gwasanaethau a datblygiad y gweithlu, gan gefnogi lleoliadau agosach at y cartref sy'n blaenoriaethu llesiant plant, parhad cymorth, a sefydlogrwydd - ffactorau sy'n gysylltiedig â gwell canlyniadau iechyd.

- **Cymru Fwy Cyfartal** -- Mae'r newidiadau arfaethedig i gofrestru a datganiadau blynyddol yn cefnogi'r nodau polisi ehangach o ganolbwyntio cyllid ar gyfer gofal cymdeithasol plant ar angen yn hytrach na'r cymhelliad elw, cefnogi mynediad tecach at ofal o safon a chryfhau atebolrwydd am ganlyniadau.

- **Cymru o Gymunedau Cydlynol** – Bydd y newidiadau arfaethedig i'r drefn gofrestru a datganiadau blynyddol yn helpu i weithredu'n effeithiol y polisi dileu elw ehangach sy'n

anelu'n rhannol at gefnogi darpariaeth leol, gymunedol a lleihau dibyniaeth ar leoliadau y tu allan i'r ardal, helpu plant i aros yn agos at eu rhwydweithiau cymorth, gan atgyfnerthu cymunedau diogel, cefnogol a gwydn.

- **Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu** – Bydd y newidiadau arfaethedig i gofrestru a datganiadau blynyddol yn helpu i roi'r polisi dileu elw ehangach ar waith, a fydd yn annog gwasanaethau nid-er-elw sydd a gwreiddiau lleol, a all fod mewn sefyllfa well i adlewyrchu hunaniaethau cymunedol, gan gynnwys darpariaeth Gymraeg ac anghenion diwylliannol.
- **Cymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang** – Bydd y newidiadau arfaethedig i gofrestru a datganiadau blynyddol yn helpu i weithredu'r polisi dileu elw ehangach yn effeithiol. Bydd hyn yn annog mwy o ailfuddsoddi tryloyw a lleol, gan gyd-fynd ag egwyddorion datblygu cynaliadwy yn ogystal ag annog mwy o leoliadau lleol a all leihau teithio a'r allyriadau cysylltiedig.

### 8.4 Sut y bydd effaith y cynnig yn cael ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?

Bydd effaith rheoliadau arfaethedig 2026 yn cael ei monitro'n agos. Mae swyddogion yn ymgysylltu'n rheolaidd â phartneriaid ar draws y sector i gael gwybodaeth am y farchnad, gan gynnwys ymgysylltu'n rheolaidd ag AGC a thrwy'r corff cenedlaethol o waith a wneir drwy Fwrdd y Rhaglen Dileu Elw.

O ran gwerthuso ehangach, disgwylir i'r polisi dileu elw cyffredinol fod yn destun gwerthusiad ffurfiol dros y blynyddoedd i ddod.  Gan ddefnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd hyd yma yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r wybodaeth a gasglwyd drwy'r ymarfer Delphi yn 2024, byddwn yn comisiynu astudiaeth ddilynol i adnewyddu gwybodaeth y sector er mwyn asesu effeithiolrwydd y darpariaethau Dileu yn Neddf 2025 ac unrhyw ddeddfwriaeth ategol (gan gynnwys y rheoliadau hyn). Mae'r dull gwerthuso hwnnw wedi'i gytuno gan Weinidogion a bydd yn cael ei gynnal mewn cydweithrediad â swyddogion Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth i bennu'r dull gwerthuso mwyaf effeithiol. Bydd yn cynnwys casglu data llinell sylfaen ar ddechrau'r trefniadau newydd yn 2026.

Bydd yr astudiaeth hon yn dilysu canfyddiadau Delphi 2024, yn asesu canfyddiadau cyfredol o'r Ddeddf ac yn nodi risgiau, rhagdybiaethau a meysydd newydd o gonsensws neu wahaniaethau. Bydd hefyd yn cynhyrchu mewnbynnau gweithredadwy megis dangosyddion posibl, ffynonellau data ymarferol ac opsiynau gwerthuso.

Bydd yr astudiaeth ddilynol yn mabwysiadu methodoleg ffurfiol i ddarparu sylfaen dystiolaeth ehangach ac i gyfrif am ffactorau a risgiau allanol. Ar yr un pryd, bydd swyddogion yn ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol drwy Fwrdd y Rhaglen Dileu Elw i gasglu barn a llunio'r dull gwerthuso ar y cyd.

Yn amodol ar gytundeb, bydd yr astudiaeth yn cael ei chaffael erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2025/26. Bydd yr amserlen hon yn galluogi paratoi'r fanyleb werthuso ffurfiol a dechrau'r gwaith yn 2026/27.